**Rhif:** WG30340

**Llywodraeth Cymru**
**Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

# Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Fframwaith cyflawni 2016 - 2021

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2016

© Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978-1-4734-8016-2

# Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

# Fframwaith Cyflawni 2016 - 2021

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Digwyddiadau Ymgynghori | 1 |
| 3. | Adborth o'r Digwyddiadau Ymgynghori | 2 |
| 4. | Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Ymgynghori Penodol | 3 |
| 5. | Camau Nesaf | 7 |
| 6. | Rhestr o'r Ymatebwyr | 8 |

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch 'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol'

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ar 15 Awst 2016 fe lansiwyd ymgynghoriad ynghylch 'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rywiol – Fframwaith Cyflawni 2016 – 2021'. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Hydref 2016.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig mabwysiadu'r egwyddorion yn y Strategaeth hon sy'n nodi'r ffyrdd y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a newid i fod yn gymdeithas lle gall pawb fyw heb ofn. Mae'r egwyddorion yn darparu cyfeiriad strategol cryf sy'n hybu cysondeb ac arfer gorau o ran y ffordd yr eir i'r afael â'r materion hyn ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar fecanweithiau ataliol, amddiffynnol a chefnogol.

1.3 Mae'n ateb y gofyniad a nodir yn adran 3 o Ddeddf Cam-drin Domestig, Trais yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

1.4 Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, fe ymgynghorwyr yn uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru i glywed eu barn am y Strategaeth Genedlaethol a chynnwys eu syniadau a'u hadborth yn y fersiwn derfynol.

1.5 Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu yn Llandrindod, Cyffordd Llandudno a Chaerdydd, gyda nifer dda iawn yn bresennol ac roedd ymgysylltiad y cyfranogwyr yn dda iawn o ran rhoi adborth ar y Strategaeth er mwyn goleuo'r ddogfen derfynol.

1.6 Hefyd, cynhaliwyd digwyddiad penodol gydag aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – roedd 4 aelod yn bresennol, a'r rheiny'n cynrychioli Cymorth i Fenywod, Llwybrau Newydd, Ymddiriedolaeth Brawf Cymru a CLlLC. Roedd yr Ymgynghorydd Cenedlaethol yn bresennol hefyd. Roedd y Pennaeth Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig yn bresennol yn y Grŵp Gweithredu ar Drais yn erbyn Menywod i glywed eu hadborth yn ystod y cyfnod ymgynghori – roedd yr adborth gan y grŵp yma'n canolbwyntio ar y diffyg manylder yn y Strategaeth a chynnig, a dderbyniwyd, i ddarparu Grŵp Tasg a Gorffen mewn perthynas â datblygu'r Fframwaith Cyflawni manwl a fydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach.

## 2. Digwyddiadau Ymgynghori

2.1 Roedd cyfanswm o 92 o bobl yn bresennol mewn tri digwyddiad ledled Cymru.

2.2 Ar y cyfan cafwyd 75 ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Roedd yr ymatebion yn cynrychioli grwpiau o sefydliadau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 18 |
| Asiantaethau'r Llywodraeth / Cyrff Eraill yn y Sector Cyhoeddus | 11 |
| Y Trydydd Sector | 25 |
| Cyrff Proffesiynol | 6 |

| | |
|---|---|
| Grwpiau Buddiant Eraill | 7 |
| Unigolion | 7 |

## 3. Adborth o'r Digwyddiadau Ymgynghori

3.1 Mae nodiadau o'r digwyddiadau wedi cael eu crynhoi isod:

- **Atal**

  Codi Ymwybyddiaeth – un o'r materion allweddol a godwyd mewn perthynas ag atal oedd bod pawb yn cytuno bod codi ymwybyddiaeth yn flaenoriaeth allweddol o ran ymyrryd yn gynnar ond bod codi ymwybyddiaeth yn arwain yn anorfod at gynnydd (yn y tymor byr a chanolig) yn nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a bod angen i hyn gael ei reoli o fewn cyllidebau cyfyngedig. Y thema allweddol drwyddi draw felly yw ystyried cyllid cynaliadwy gyda dull eglur, mwy cydlynol o ran sut y mae gwasanaethau'n cydweithio.

  Addysg – nodwyd ar draws yr holl ddigwyddiadau nad yw'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar ysgolion yn benodol; mae'n amcan allweddol ac roedd y rhai a oedd yn bresennol yn pryderu ynghylch cynaliadwyedd hirdymor gan fod hyn yn ffordd effeithiol o gael effaith.

  Ymddengys fod y Strategaeth yn canolbwyntio ar y sector cyhoeddus er bod angen newid agweddau yn y gymuned. Mae angen canolbwyntio ar newid agweddau – cael gwared ar y gwarthnod.

  Cyflawnwyr – Mae'r canllawiau i'w croesawu'n fawr.  Roedd safbwyntiau cyferbyniol ynghylch y derminoleg o ran dwyn cyflawnwyr i gyfrif. Codwyd nifer o gwestiynau, gan gynnwys: a yw dwyn i gyfrif yn fwy o amcan i'r System Cyfiawnder Troseddol? A ddylid cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol dan yr amcan sy'n ymwneud â Chyflawnwyr fel cydgyfrifoldeb?

- **Amddiffyn**

  Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo bod angen llwybr atgyfeirio integredig ar gyfer "Cymru Gyfan". Mae gormod o systemau gwahanol yn arwain at ddryswch ac anghyfartalwch mewn ardaloedd lleol. Er mwyn i'r drefn fod yn fwy cynaliadwy, ystyrid ei bod yn hanfodol bod â llwybr eglur ynghyd â rhannu gwybodaeth yn gynnar.

  Roedd pawb yn cydnabod bod y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn gam cadarnhaol ymlaen ond o ystyried mater codi ymwybyddiaeth a'r effaith ar wasanaethau a yw wedi cael ei gyflwyno'n rhy gyflym ac a yw'r disgwyliadau'n rhy uchel? Hyfforddiant a 'rhywun y gellir troi ato/ati' oedd y ddwy agwedd bwysicaf i rywun sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

  Dywedodd nifer o bobl y dylai Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg fod yn orfodol i bob asiantaeth a bod angen gwneud gwaith dilynol i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd.

- **Cymorth**

Diffyg gwasanaethau/cyllid ar gyfer gwasanaethau felly nid ydynt yn gallu ateb y galw. Mae angen cyllid hirdymor. Mae angen mwy o arweiniad i egluro sut y bydd cyllid rhanbarthol yn gweithio. Dywedwyd y gallai gweithio mewn consortiwm fod yn ddatrysiad yn y tymor hwy gan fod sefydliadau mwy yn cefnogi'r rhai llai – er nad yw hyn yn ddatrysiad perffaith, ac roedd eraill yn cwestiynu'r rhesymeg sy'n sail i Strategaeth ar y cyd rhwng BILl/ALl yn enwedig os yw gwasanaethau gwahanol yn golygu llwybrau gwahanol – mae'n mynd â ni yn ôl at y cwestiwn a oes angen "Llwybr Atgyfeirio Cymru Gyfan" a nodwyd uchod.

Amlygwyd materion o ran cyllid ar gyfer Cyflawnwyr – ac o ble y bydd y cyllid yn dod.

Mae problemau o ran daearyddiaeth ardaloedd gwledig yn creu rhwystrau o ran mynediad at wasanaethau.

- **Nodweddion gwarchodedig**

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo bod angen trin pobl drawsryweddol/nodweddion gwarchodedig yn gyfartal.

Mae rhai meysydd a fyddai'n perthyn dan ymbarél materion 'cydraddoldeb' yn eisiau. A fyddai'n well cynnwys adran ar Gydraddoldeb yn hytrach na'u henwi'n benodol? Er enghraifft – nid yw anabledd wedi'i restru.

Mae angen mynediad cyfartal at wasanaethau – mae angen i hyn adlewyrchu amrywiaeth yn well.

- **Y Gymraeg**

Mae safonau'r Gymraeg yn bwysig ac mae angen ymlynu wrthynt ar draws y sector. Gwnaed sylwadau y gall hyn gael effaith ar argaeledd hyfforddiant.

- **Sylwadau eraill**

Mae angen sicrhau bod y cysylltiadau â Deddfau eraill (Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn glir.

Mae'r amcanion tanategol ac amcanion Llywodraeth Cymru yn anghyson. Mae rhai'n benodol iawn, yn wahanol i eraill.

Dylai atal caethwasiaeth gael ei gynnwys yn fwy eang yn y Strategaeth.

## 4. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Ymgynghori Penodol

4.1 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn croesawu'r Strategaeth Genedlaethol arfaethedig.

**Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau o ran atal? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau pellach? Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth (data, ymchwil neu anecdotaidd).**

- **Amcan 1:** Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws Poblogaeth Cymru

- **Amcan 2:** Gwella addysg am berthnasoedd iach a chydraddoldeb rhwng y rhywiau
- **Amcan 3:** Herio cyflawnwyr, eu dwyn i gyfrif am eu gweithredoedd a darparu ymyriadau a chymorth i newid eu hymddygiad

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r blaenoriaethau o ran atal.

Amcan 1

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r teitl "Cynyddu ymwybyddiaeth" gael ei ddisodli gan "Cynyddu ymwybyddiaeth a newid agweddau".

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylai'r Strategaeth godi ymwybyddiaeth ar lefel genedlaethol.

Amlygodd sawl ymatebydd yr angen i fynd ati ymhellach i godi ymwybyddiaeth o fesurau ar bob lefel i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a chamdriniaeth ar bob ffurf, a chyflwyno'r mesurau hynny.

Dywedodd llawer o ymatebwyr y dylai ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth fod yn fwy ystyrlon a chael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn gyda mwy o bwyslais ar ymgyrchoedd wedi'u targedu gan gynnwys defnydd gwell o'r cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd ystod eang o bobl a grwpiau oedran.

Amcan 2

Mae llawer o ymatebwyr yn cefnogi'r amcan hwn yn llawn.

Mynegodd cwpl o ymatebwyr angen i nyrsys ysgol gorfodol mewn ysgolion addysgu pobl ifanc am iechyd a pherthnasoedd a'u cynorthwyo i ddysgu am bwysigrwydd parch a chydsyniad.

Cododd nifer o ymatebwyr y cwestiwn ynglŷn â'r angen i sicrhau bod gofynion yn cysylltu ag adolygiadau Estyn i annog ysgolion i godi proffil y materion sy'n ymwneud â Pherthnasoedd Iach.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid rhoi pwyslais ar ddull holistaidd o wella addysg am berthnasoedd iach a chydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Amcan 3

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn falch o weld bod y Strategaeth yn herio cyflawnwyr. Dywedodd llawer o ymatebwyr fod angen mynd ati gan bwyll o ran ehangu'r defnydd o raglenni ar gyfer cyflawnwyr, yn enwedig mewn perthynas ag achosion risg uchel ac yn enwedig lle mae llawer o'r dystiolaeth bresennol a blaenorol yn eu tro'n dal i ddangos llwyddiant cymysg.

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen rhoi ystyriaeth i waith gyda chyflawnwyr benywaidd.

Dylid rhoi ystyriaeth i raglenni ar gyfer cyflawnwyr sydd o ansawdd da ac yn seiliedig ar dystiolaeth ac y gellir eu cynnig a'u darparu'n gyson ledled Cymru.

**Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau o ran amddiffyn? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau pellach?**

- **Amcan 4**: Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu bwriadau amcan 4.

Fe wnaethant nodi angen i sicrhau bod staff rheng-flaen yn meddu ar yr offer a'r arbenigedd gofynnol i adnabod dioddefwyr camfanteisio rhywiol a masnachu pobl.

Nododd ymatebwyr ei bod yn bwysig peidio ag adnabod dioddefwyr a goroeswyr fel un grŵp homogenaidd ag anghenion tebyg.

Mae angen i'r strategaeth nodi'r hyn y mae llwybr atgyfeirio integredig yn ei feddwl a phwy yw'r rhanddeiliaid sy'n rhan sylfaenol o lwybr atgyfeirio integredig.

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cynnig i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr ond mae angen iddo nodi'n glir sut y bydd barn plant a phobl ifanc sy'n profi camdriniaeth ddomestig yn cael ei chlywed a sut y bwriedir yn ymateb i'r farn honno.

**Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau o ran cymorth? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau pellach?**

- **Amcan 5:** Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, yn cael eu harwain gan anghenion ac yn ymateb i rywedd ledled Cymru
- **Amcan 6**: Cydweithio fel sector i ddeall a diwallu anghenion ein cymunedau, gan gynyddu cynaliadwyedd a gallu'r sector

<u>Amcan 5</u>

Roedd yr ymatebwyr yn ystyried bod yn rhaid cynnig gwasanaeth cyson ac ymatebol i gleientiaid mewn ardaloedd gwledig i sicrhau nad yw materion o ran arwahanrwydd sy'n aml yn eithafol yn atal unigolion rhag cael mynediad at y cymorth arbenigol y mae ei angen arnynt.

Fel rhan o'r model mae'n bwysig bod gwasanaethau cymorth yn ymateb i anghenion, yn canolbwyntio ar oroeswyr ac yn ymlynu wrth fframweithiau achredu ac ansawdd cenedlaethol.

<u>Amcan 6</u>

Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

Bydd cyllid mwy cynaliadwy, a hwnnw wedi'i gynllunio dros gyfnodau hwy, yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau, a sefydliadau, deimlo'n ddiogel yn y dyfodol a chynllunio ar gyfer cydweithio'n fwy dros gyfnodau hwy.

Mae angen i'r Strategaeth Genedlaethol osod dyletswyddau eglur a phriodol ar y Sector Cyhoeddus i gynnwys y sector gwirfoddol arbenigol yng Nghymru yn llawn yn y broses o gynllunio a gweithredu strategaethau lleol/rhanbarthol.

Mae angen cyflwyno gwasanaeth monitro i oruchwylio'r broses o gyflwyno'r strategaeth mewn gwasanaethau er mwyn sicrhau ymrwymiad gan bob gwasanaeth.

Mae angen i'r strategaeth nodi'n benodol ymrwymiad i fynd i'r afael â'r drefn o roi cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc ac mae angen cynnwys ymrwymiad i gydnabod rôl a gwerth gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol gan gynnwys mewn unrhyw fodel ar gyfer cyllid cynaliadwy i'r gwasanaethau arbenigol a ddatblygir.

Er mwyn rhoi'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr a goroeswyr, dylid hybu'r arfer o gydleoli lle y bo'n bosibl gyda thimau amlasiantaeth a chynllunio integredig**.**

**Cwestiwn 4 - Ydych chi'n meddwl y bydd y blaenoriaethau'n cael effaith gadarnhaol / negyddol ar nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim? A oes cyfleoedd pellach nad ydynt wedi'u cynnwys yn y blaenoriaethau i hybu cydraddoldeb?**

Caiff sylwadau penodol eu rhestru isod:

- Angen i greu mwy o ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ym mhob cymuned.
- Creu mwy o ymwybyddiaeth o gam-drin domestig mewn perthnasoedd sy'n cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o Fasnachu Pobl ym mhob cymuned.
- Mae angen newid canfyddiadau o'r farn "draddodiadol" am gam-drin domestig.

**Cwestiwn 5 - Pa gyfleoedd y mae'r strategaeth hon yn eu rhoi i hybu'r defnydd o'r Gymraeg? Oes gennych chi unrhyw bryderon y gallai'r strategaeth hon gael effaith anffafriol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

Caiff sylwadau penodol eu rhestru isod:

- Consensws y dylai'r Gymraeg fod â'r un statws â'r Saesneg.
- Dylid defnyddio'r Gymraeg gymaint ag y mae angen mewn ardaloedd.
- Dylai fod gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol eu strategaeth hwy eu hunain ar gyfer gweithredu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Pryder ynghylch cost darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

**Cwestiwn 6 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod amdanynt.**

Caiff sylwadau penodol eu rhestru isod:

- Nid yw dynion yn cael ystyriaeth gyfartal yn y strategaeth.

- Mae diffyg eglurder, manylder yn y strategaeth.
- Mae cyllid yn her.
- Cynnydd yn y galw wrth i ddioddefwyr gael eu hadnabod ond dim cynnydd o ran darparu gwasanaethau o ganlyniad.
- Angen gweld y cynllun cyflawni.
- Codwyd pryderon nad yw'r diffiniad o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a ddefnyddir yn y strategaeth yn gyson â diffiniadau a gydnabyddir yn rhyngwladol.

## 5. Camau Nesaf

5.1 Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r ymatebwyr am eu sylwadau a'u syniadau. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried yr ymatebion o'r ymgynghoriad a byddant yn cael eu defnyddio i fireinio a datblygu'r Strategaeth Genedlaethol ymhellach cyn ei chyhoeddi ar 4 Tachwedd 2016.

## 6. Rhestr o'r ymatebion

**Cafwyd ymatebion gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol:**

**Enw**

Plant sy'n Derbyn Gofal
Cyngor Sir Conwy – plant a theuluoedd
Precious O'Driscoll
Richard Ebley
Dechrau'n Deg
Cymorth i Ddioddefwyr
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Dechrau'n Deg Caerdydd
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Grŵp Cydgysylltwyr Cam-drin Domestig Cymru Gyfan
Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, Llywodraeth Cymru
Bwrdd Cydweithio Rhanbarthol Cwm Taf
Cyngor Ar Bopeth Cymru
Y Pedwar Heddlu yng Nghymru
Cymorth i Fenywod Cyfannol
Yr Ymddiriedolaeth Goroeswyr
Coleg Brenhinol y Bydwragedd
Cyngor Pobl Hŷn Castell-nedd Port Talbot
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Consortiwm De Ddwyrain Cymru: Grŵp Diogelu Addysg
CBS Torfaen
Llwybrau Newydd
Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru
Y Bartneriaeth Rhydd Rhag Ofn D/O Tai Siarter
Cymorth i Fenywod Cymru
Grŵp Gweithredu ar Drais yn erbyn Menywod Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd
Cyngor Dinas Caerdydd
Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Caerdydd a'r Fro
Grŵp Moderneiddio Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai ar gyfer Cam-drin Domestig
CLlLC
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
CARE (Christian Action Research and Education)
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched
Ymgyrch Rhuban Gwyn y DU
Ymateb gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau Llamau
CYMORTH I FENYWOD CAHA Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
Cartrefi Cymunedol Cymru
PDC Conwy a Sir Ddinbych
Dinas a Sir Abertawe
Cymorth Cymru

Diogelu Plant
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Stonewall Cymru
Plaid Cydraddoldeb Merched – Cangen Caerdydd
Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Rhanbarthol Gwent
Cymorth i Fenywod Abertawe
NSPCC Cymru/ Wales
Both Parents Matter Cymru
Cymru Ddiogelach
Age Cymru
Llamau
BAWSO
Cartrefi Castell-nedd Port Talbot
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Prifysgol De Cymru
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yng Nghymru, Pennaeth Troseddau, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
Canolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
Family Action
Soroptimist International Ynys Môn
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM
NOMS Cymru